**Llywodraeth Cymru**

**Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024 (O.S. 2024/753 (Cy. 105) (fel y'i diwygiwyd)) – rheoliadau 38(2)(c) a 42(3)(b)**

# Trwydded gyffredinol i ganiatáu symud gwartheg o ddaliadau â statws dolur rhydd feirysol buchol (BVD) nad yw'n negatif neu ddaliadau heb eu sgrinio yng Nghymru i unedau gwerthu a phesgi penodedig

**Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024 (fel y'i diwygiwyd)**

1. Yn unol â rheoliadau 38(2)(c) a 42(3)(b) o Orchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024, mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r drwydded gyffredinol hon, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn yr Atodlen i'r drwydded hon.

2. Mae'r drwydded gyffredinol hon yn caniatáu symud gwartheg o ddaliadau:
    a. sydd â buches a chanddi statws BVD ar y cyd nad yw'n negatif, neu
    b. nad ydynt wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau samplu,

   fel y'u nodir yng Ngorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024.

3. Mae'r drwydded gyffredinol hon yn gymwys i ddaliadau yng Nghymru yn unig.

4. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio, atal neu ddirymu'r drwydded hon yn ysgrifenedig unrhyw bryd.

5. Mae'r drwydded gyffredinol hon yn ddilys o 00:01 ar 03 Gorffennaf 2026.

Llofnodwyd gan: Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

O dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 02 Gorffennaf 2026

**Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw ddarpariaeth yn y drwydded hon a wnaed o dan Orchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024 (fel y'i diwygiwyd) yn cyflawni trosedd ac yn agored ar euogfarn ddiannod o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis, neu'r ddau.**

**Atodlen yr Amodau**

1. Mae'r ceidwad/trwyddedai yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw wartheg o ddaliad â statws BVD nad yw'n negatif, neu ddaliad lle nad yw'r rhwymedigaethau samplu wedi'u bodloni, yn cael eu symud heb brawf cyn symud dilys oni bai bod y gwartheg yn cael eu symud i un o'r cyrchfannau canlynol:
    a. i'w cigydda o dan drefniadau nad ydynt yn arwain at unrhyw risg sylweddol o haint â feirws BVD i unrhyw anifail buchol arall (ac eithrio'r rhai sydd hefyd yn cael eu symud i'w cigydda);
    b. yn uniongyrchol i Uned Besgi Gymeradwy yng Nghymru neu Loegr;
    c. yn uniongyrchol i Uned Besgi Eithriedig yng Nghymru neu Loegr;
    d. i farchnad sydd wedi'i heithrio rhag profion TB cyn symud yng Nghymru neu Loegr;
    e. trwy arwerthiant arbennig TB (Marchnad "Oren") yng Nghymru neu Loegr.

2. Rhaid i'r ceidwad/trwyddedai gofnodi'n gywir symudiadau anifeiliaid o'r fangre wreiddiol i fangre'r gyrchfan ar y platfform symud anifeiliaid perthnasol gan gynnwys cofnodi rhif adnabod yr anifail. Amod o bob symudiad yw bod yr anifail wedi'i dagio'n briodol yn unol â'r rheoliadau adnabod da byw cyfredol.

**Nodiadau esboniadol**

1. Ystyr "Ceidwad/Trwyddedai" yw'r person sy'n symud yr anifeiliaid o dan drwydded.

2. Nid yw'r drwydded gyffredinol hon yn caniatáu symud anifeiliaid sydd wedi cael prawf positif neu sydd â haint parhaus, ac eithrio i'w cigydda o dan drefniadau nad ydynt yn arwain at unrhyw risg sylweddol o haint â feirws BVD i unrhyw anifail buchol arall (ac eithrio'r rhai sydd hefyd yn symud i'w cigydda).

3. Nid yw'r drwydded hon yn drech nag unrhyw gyfyngiadau symud na phrofion cyn symud eraill ar anifeiliaid, sydd eisoes yn bodoli o dan ddeddfwriaeth arall.

4. Nid oes unrhyw beth yn y drwydded gyffredinol hon sy'n eich rhyddhau o'ch rhwymedigaeth i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.

5. Nid yw'n ofynnol i'r ceidwad/trwyddedai gario copi caled neu ddigidol o'r drwydded gyffredinol hon.

6. Mae deddfwriaeth Dolur Rhydd Feirysol Buchol ar gael yma: Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024